**EITEM AR YR AGENDA: 5**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**22ain Medi 2008**

**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU CYNLLUN LLEIHAU RISG DRAFFT YR AWDURDOD 2009-10**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Adnoddau)**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** I hysbysu Aelodau o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod 2009-10; i edrych am argymhelliad i'r Awdurdod Llawn mewn cysylltiad â'r Cynllun Gweithredu; ac i gytuno ar eiriad ymateb yr Awdurdod i'r materion a godwyd.

**Cyflwyniad**

**2.** Cymeradwyodd Aelodau Gynllun Gweithredu drafft y Cynllun Lleihau Risg 2009-10 am ymgynghoriad yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2008.

**3.** Yn unol â'r canllaw a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, caniatawyd 12 wythnos am ymgynghoriad, ac fe dderbyniwyd yr ymatebion hyd at ac yn cynnwys y dyddiad cau o 5ed Medi 2008.

**Gwybodaeth**

**4.** Dosbarthwyd 500 copi o'r ddogfen ymgynghori, ac roedd fersiwn electroneg ar gael ar wefan yr Awdurdod.

**5.** Cyhoeddwyd negeseuon yn fewnol i annog cyfranogiad, a

darparwyd gwybodaeth i staff a'u cynrychiolwyr.

**Gwybodaeth (parhad)**

**6.** Derbyniwyd cyfanswm o 13 ymateb ysgrifenedig: 1 gan aelod o'r awdurdod tân, 2 gan undebau'n cynrychioli staff gweithredol, 1 gan swyddog cyngor sir, 6 gan staff gweithredol llawn amser (2 o Wrecsam, 4 o Gaernarfon, 1 o Gonwy, 1 o Sir Ddinbych) ac un gan gyfeiriad e-bost allanol.

**7.** Mae'r holl ymatebion wedi cael eu dadansoddi. Mae crynodeb o'r sylwadau wedi cael eu derbyn a'u cyflwyno yn yr atodiad, gydag ymateb drafft gan yr Awdurdod.

**8.** Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd nifer o ymatebion a dderbyniwyd eleni yn adlewyrchu un o ddau safbwynt - unai nad oedd gan yr Awdurdod ddigon o fanylion i wybod yn union sut i symud ymlaen gyda'i gynigion, neu fod yr Awdurdod wedi casglu gormod o fanylion eisoes i gyfrif yr ymatebion i'r broses fel rhai dilys.

**9.** Roedd peth cefnogaeth mewn egwyddor i wneud newidiadau mewn un ardal o wasanaeth er mwyn buddsoddi mewn un arall, i adolygu trefniant swyddogion wrth gefn ac am gymryd adolygiad sylfaenol o risg, a dymuniad i symud ymlaen gyda rhai materion sydd wedi cael eu trafod am nifer o flynyddoedd.

**10.** Roedd rhai ymatebion yn codi pryderon a chwestiynau am agweddau o'r cynigion ac yn edrych am sicrwydd ynglŷn â'u pryderon, tra bod eraill yn edrych i ohirio symud ymlaen gyda'r cynigion nes bod yr holl fanylion wedi cael eu dadansoddi cyn y gweithrediad.

**11.** Roedd nifer o ymatebion yn cwestiynu os oedd dau o'r pedwar cynnig (trefniadau arlwyo a sefydlu gweithgor i adolygu risg) o lefel strategol ddigon uchel i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad, ac roedd rhaid yn siomedig iawn yn ansawdd y ddogfen ymgynghori ei hunan.

**Argymhellion**

**12.** Fod Aelodau:

**Argymhellion (parhad)**

12.1 yn nodi'r adroddiad yn crynhoi'r ymatebi'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft ar gyfer 2009-10;

12.2 yn penderfynu sut maen nhw'n dymuno symud ymlaen gyda'r pedwar cynnig yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd am argymhelliad i'r Awdurdod llawn; ac yn

12.3 Yn cefnogi'r ymatebion drafft i sylwadau a dderbyniwyd fel y cyflwynwyd yn Atodiad 1 am argymhelliad i'r Awdurdod llawn.